

Purfa Valero Penfro Prosiect Uned CHP Taflen Newyddion Gymunedol #2

- **Gwrando ar farn Cyngorau Tref a Chymuned ledled Aber Cleddau**
- **Ymrwymiad i 'Ddiwrnod Agored' Swyddi cyn dechrau adeiladu**
- **Ysgrifennydd yr Economi'n ymweld i ddysgu mwy am fuddsoddi £100 miliwn mewn diwydiant**
- **Cysylltwch gyda'ch barn. Ymwelwch ag www.pembroke-refinery-cogen.co.uk neu www.pembroke-refinery-cogen.cymru**

Cynnydd Cyfredol y Buddsoddiad Arfaethedig ym Mhurfa Penfro

Neges oddi wrth Reolwr Cyffredinol y Burfa

Croeso i'r diweddariad diwethaf hwn oddi wrth Valero ynghylch ein cynigion i adeiladu Uned Gydgyhyrchu Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP) ym Mhurfa Penfro.

Bu llawer yn digwydd yn yr ychydig fisoedd diwethaf. Ymwelodd Ken Skates, Ysgrifennydd yr Economi, â'r burfa i ddysgu mwy am y prosiect arfaethedig. Mae Valero a'n contractwr penodedig wedi ymrwmo i gynnal Diwrnod 'Cyfarfod y Contractwr' ac rydym wedi cynnal nifer o gyfarfodydd rhagarweiniol gyda Chyngorau Tref a Chymuned ledled ein Parth Ymgynghori, i wrando ar farn a sylwadau pobl yn ein cymuned.

Fel erioed, os bydd gennych unrhyw gwestiwn, cofiwch gysylltu trwy ein gwefan newydd – www.pembroke-refinery-cogen.co.uk neu www.pembroke-refinery-cogen.cymru

Ed Tomp, Is-lywydd a Rheolwr Cyffredinol y Burfa



Gwrando ar eich barn

Yn Ionawr, Chwefror a Mawrth bu aelodau tîm prosiect Valero'n cyfarfod â Chyngorwyr Tref a Chymuned ledled ein Parth Ymgynghori i gyflwyno'r prosiect Uned Gwres a Phŵer Cyfunedig ym Mhurfa Penfro, a chasglu sylwadau dechreuol cymunedau Aber Cleddau.

Trafodwyd amrywiaeth o bynciau yn y gwahanol gyfarfodydd, gan gynnwys effaith traffig yn ystod y cyfnod adeiladu; cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol; ansawdd yr awyr a'r effaith ar yr amgylchedd; effaith weledol y prosiect ar y dirwedd leol; diogelwch; a sŷn all ddod o'r uned.

Meddai Stephen Thornton, Rheolwr Materion Cyhoeddus y Burfa, "Yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn, bu Valero'n mynd

allan i gyfarfodydd Cyngorau Tref a Chymuned ledled ein Parth Ymgynghori, o Angle i Dale, gan siarad â phobl o bob rhan o'r gymuned a gwranddo ar eu barn ar ein datblygiad arfaethedig yn y burfa.

"Cawsom ein plesio'n fawr gyda'r ymateb a gawsom hyd yma, gyda chryn dipyn o gefnogaeth gadarnhaol llawer o gynghorwyr y buom yn siarad â nhw. Codwyd nifer o faterion pwysig gyda ni hefyd a bydd hyn yn helpu ysbrydoli ein cynigion ac yn porthi dylunio'r prosiect. Wrth derfynu ein cynlluniau, gobeithiwn y byddwn yn gallu dangos bod y prosiect hwn yn bendant wedi gwranddo ar sylwadau pobl ledled y sir."

I gysylltu gyda'ch sylwadau, ymwelwch ag: www.pembroke-refinery-cogen.co.uk neu www.pembroke-refinery-cogen.cymru

Valero'n Tynnu Sylw Ysgrifennydd yr Economi at Fuddiannau'r Prosiect

Ymwelodd Ken Skates, yr Ysgrifennydd dros yr Economi a'r Seilwaith, â Sir Benfro ar 11eg Ebrill i ddysgu mwy am gynigion Valero am Uned Gydgyhyrchu Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP) ym Mhurfa Penfro.

Roedd ymweliad Ysgrifennydd yr Economi'n cynnwys cylchdaith o'r cyfleuster gydag aelodau o arweinwyr y burfa a thîm y prosiect Uned Gwres a Phŵer Cyfunedig, i weld y safle adeiladu arfaethedig drosto'i hun. Bydd y prosiect yn darparu pŵer i'r burfa yn ogystal ag atodi galw'r safle am ager, gan helpu unig burfa olew Cymru, ac un o'r cyflogwyr rhanbarthol mwyaf, gynnal ei gallu cystadleuol byd-eang. Yn ystod ei ymweliad, treuliodd Ysgrifennydd yr Economi amser hefyd yn siarad â grŵp o brentisiaid Valero a gweld peth o'r gwaith a wnânt fel rhan o'u hastudiaethau.

Meddai Ken Skates, Ysgrifennydd yr Economi, "Rwy'n cael fy nghalonogi'n fawr gan y cynlluniau sydd gan Valero i wneud y buddsoddiad sylweddol hwn o £100 miliwn yma yn Sir Benfro. Mae'r burfa yng nghalon Ardal Fenter Dyffordd y Ddaud Gleddau, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'r sector ynni yn y rhanbarth. Mae Valero'n gyflogwr pwysig iawn


yn y cylch, yn cynnal dros fil o deuluoedd sy'n dibynnu ar y gyflogaeth a swyddi sy'n talu'n dda iawn yn y burfa."

Meddai, Ed Tomp, Is-lywydd Valero a Rheolwr Cyffredinol y Burfa, "Gyda diwydiant puro'r DU yn wynebu heriau niferus, bydd y prosiect arfaethedig hwn yn cynorthwyo sicrhau bod Purfa Penfro – sy'n un o gyflogwyr blaenllaw Cymru ac un o burfeydd



mwyaf a mwyaf cymhleth Ewrop – yn dal i fod yn llwyddiannus yn y farchnad fyd-eang gystadleuol, ac roedd yn wir bleser gallu dweud mwy wrth Ysgrifennydd yr Economi am ein cynlluniau."

Dyweddodd Ysgrifennydd yr Economi hefyd, "Roedd yn rhyfeddol gallu treulio rhywfaint o amser gyda phrentisiaid Valero. Mae rhaglen brentisiaethau'r burfa'n cynnig llwybr i bobl ifanc yn Sir Benfro tuag at gyflogaeth fedrus a bydd y prosiect hwn yn mynd ymhell tuag at gynorthwyo sicrhau swyddi yma i'r cenedlaethau a ddaw."



- Gwrando ar farn Cyngorau Tref a Chymuned ledled Aber Cledau
- Ymrwymiad i 'Ddiwrnod Agored' Swyddi cyn dechrau adeiladu
- Ysgrifennydd yr Economi'n ymweld i ddysgu mwy am fuddsoddi £100 miliwn mewn diwydiant
- Cysylltwch gyda'ch barn. Ymwelwch ag www.pembroke-refinery-cogen.co.uk neu www.pembroke-refinery-cogen.cymru



Trefnu 'Diwrnod Agored' Swyddi ar gyfer y Prosiect

Mae Purfa Valero Penfro'n bwriadu cynnal Diwrnod Agored 'Cyfarfod y Contractwr', unwaith y caiff prif gontractwr y prosiect ei benodi a'i gyhoeddi'n ddiweddarach eleni. Cynlluniau presennol yw cynnal y digwyddiad yn Noc Penfro, a bydd rhagor o fanylion ar gael wrth derfynu'r trefniadau.

Meddai Stephen Thornton, Rheolwr Materion Cyhoeddus y Burfa, "Ers i ni gyhoeddi'n gyntaf ein cynigion ar gyfer yr Uned Gwres a Phŵer Cyfunedig, y neges gyson a gawsom gan aelodau'r gymuned a rhanddeiliaid allweddol eraill oedd yr angen i sicrhau cyfle i gyflogi pobl leol fel rhan o adeiladu'r prosiect.

"Ni wnaiff y prosiect arfaethedig hwn greu unrhyw swyddi parhaol, hirdymor oherwydd mai'r gweithlu presennol fydd yn gweithredu'r uned gwres a phŵer cyfunedig arfaethedig, ond daw'r fantais at ei gilydd i'r gymuned leol a'r economi ehangach o ganlyniad i wella ymarferoldeb

Purfa Penfro fel cyflogwr mawr yn Sir Benfro a Chymru. Fodd bynnag, bydd nifer o swyddi ar gael yn ystod y cyfnod adeiladu ac rydym yn ymroddi'n llwyr i ddefnyddio cwmnïau peirianyddol lleol a'u hadnoddau ar gyfer gwaith adeiladu'r safle i'r eithaf, gan gynnwys y contractwyr sifil, mecanyddol, trydanol ac offeru yn ystod y prosiect hwn.

"Er mwyn sicrhau bod cyfle i bawb gyfarfod Valero, contractwr y prosiect a'i isgontractwyr penodedig i drafod pa gyfleoedd allai fod yn ystod yr adeiladu, rydym yn ymrwmo i gynnal Diwrnod Agored a byddwn yn gwahodd holl aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb i ddod heibio i siarad ag aelodau tîm y prosiect.

"Gwylwch am ragor o wybodaeth a'r dyddiad y byddwn yn cynnal y Diwrnod Agored hwn cyn dechrau adeiladu yn 2018"

Dysgwch fwy am Brosiect Uned Gwres a Phŵer Cyfunedig Valero

Mae eich barn yn bwysig i ni ac, os dymunwch gysylltu, gallwch wneud hynny trwy ymweld â'n gwefan:

www.pembroke-refinery-cogen.co.uk or
www.pembroke-refinery-cogen.cymru